# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion
# Information Further to Ministerial Answers

*Cyhoeddir ymatebion gan Weinidogion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfiethiad Saesneg o ymatebion yn y Gymraeg.*
*Ministerial responses are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

**Gwybodaeth ychwangeol at OAQ(3)1837(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 14 Mawrth 2011**
**Information further to OAQ(3)1837(ECT) issued by Ieuan Wyn Jones, the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, on 14 March 2011**

**At/To Gwenda Thomas:**

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r cwestiynau a ofynnoch yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Chwefror ynghylch cau ffatri TRW yn Resolfen, Castell-nedd.

Rydym yn parhau i gefnogi'r cyn-aelodau'r staff a effeithiwyd gan gau'r ffatri, yn enwedig trwy ein partneriaid yn y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Mae'r cymorth yr ydym eisoes wedi'i ddarparu yn cynnwys cyflwyno sesiynau gwybodaeth grŵp a sesiynau cynghori preifat un ac un gyda 130 o staff. Hefyd, mae Gyrfa Cymru wedi cynnal cymorthfeydd wyneb yn wyneb lle rhoddwyd cyngor i'r staff ynghylch hyfforddiant yn y dyfodol ac opsiynau cyllid gan ReAct. Bydd staff y Ganolfan Byd Gwaith yn parhau i roi cyngor a chymorth i gyn-aelodau'r staff hefyd.

Hefyd, fe ofynnoch yn benodol i mi egluro'r amgylchiadau arweiniodd at gyn-aelodau'r staff ffatri TRW yn cynnal protest ar 16 Chwefror. Bu oddeutu chwe deg o gyn-aelodau staff y ffatri yn cymryd rhan yn y brotest ac, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrth fy swyddogion, cafodd ei sbarduno gan benderfyniad y cwmni i gyflogi staff dros dro er mwyn cwblhau contractau cwsmeriaid presennol. Yn ôl fy swyddogion, fe gododd y sefyllfa hon oherwydd nad oedd y cwmni a chynrychiolwyr yr undebau yn gallu dod i gytundeb ynghylch y telerau ar gyfer ymestyn contractau'r gweithwyr am bedair wythnos ym mis Rhagfyr.

Fel imi ddatgan yn glir yn y Cyfarfod Llawn, roeddwn yn eithriadol o siomedig ynghylch penderfyniad y cwmni i symud o Resolfen, er gwaethaf ein hymdrechion gorau, ac ymdrechion rheolwyr lleol, cynrychiolwyr yr undebau a staff, i roi mesurau arbed arian ar waith er mwyn osgoi gorfod gweld y ffatri'n cau.

Rwy'n cydymdeimlo'n fawr gyda chyn-weithwyr y ffatri a'u teuluoedd yn y cyfnod eithriadol anodd hwn.

I am writing in response to the questions you asked in Plenary on 16 February concerning the closure of TRW Resolven, Neath.

We continue to support the former employees affected by the closure, in particular through our JobCentre Plus and Careers Wales partners. Support already provided includes the delivery of group information sessions and one-to-one private advisory sessions with 130 employees. Careers Wales has also held face-to-face surgeries, where advice was given to employees about future training and potential ReAct funding options. Former employees will continue to receive support and advice from JobCentre Plus staff.

You also specifically requested that I clarify the circumstances leading to the protest by former employees at TRW's plant on 16 February. This involved around sixty former employees and, my officials have been advised, was prompted by the company's decision to employ temporary staff in order to complete existing customer contracts. My officials inform me this situation arose as the company and union representatives were unable to reach agreement on terms for a four week extension to employee contracts in December.

As I made clear in Plenary, I was extremely disappointed by the company's decision to withdraw from Resolven, despite our very best efforts, and those of the local management, union representatives and staff, to put in place cost-saving measures to avoid closure.

My thoughts remain with the former employees and their families at this incredibly difficult time.